Daeth dechrau tymor â'i brysurdeb arferol gydag ef. Derbyniwyd nifer dda o ddisgyblion newydd a chafwyd cwmni tri myfyriwr yn gwneud ymarfer dysgu. Daeth Mrs Elin Elliot (gynt o Dy'n-cwm) a Mr Eifion ab Elwyn Griffith sy'n trigo yn Rhydypennau atom o Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth a Miss R.Murray o Goleg Rhydaman. Yn anffodus mae Mrs B.Marshall y gogyddes wedi bod dan driniaeth lawfeddygol. Dymunwn adferiad buan iddi. Ar yr un pryd croesawn Mrs B.Randall sy'n ein cynorthwyo dros dro.

Mae ein tîm pêl-droed yn ieuanc iawn eleni ac er na fuom yn ffodus i ennill yn y ddwy gêm a chwaraewyd eisoes cawsom lawer o hwyl a dysgu llawer ar yr un pryd. Rhaid llongyfarch y tim Rygbi ar gael gwahoddiad i chwarae'n erbyn tîm o ardal Llanbedr a'r cylch yn y Twrnament Saith-bob-ochr i oedolion yn Aberaeron yn ystod mis Awst. Cafwyd prynhawn diddorol a hyfryd oedd cael treulio orig yng nghwmni rhai o brif chwaraewyr ein gwlad. Hyfryd yw clywed bod rhai o'r disgyblion a ffarweliodd â ni ddiwedd y tymor diwethaf eisoes wedi eu dewis i chwarae yn nhimau cyntaf ysgolion Penglais a Phenweddig.

Ar y 9fed o'r mis yma aeth nifer o blant yr ysgol gyda'r prifathro i dreulio wythnos yng ngwersyll Pen-dein. Rwy'n siwr y bydd adroddiad diddorol ganddynt i'w roi yn y *Tincer* fis nesaf.

Yr wythnos yma ffarweliwn a Junya mab Dr a Mrs Y.Ogawa gan fod y teulu'n dychwelyd i Siapan lle mae'r Dr Ogawa'n Athro Amaethyddiaeth yn y Brifysgol. Dymunwn bob llwyddiant i'r teulu bach.